Statws *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 13

Gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau mewn cysylltiad â mangreoedd – llety newydd

Cymhwyso Rhan 13

49.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth llety a bod y fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn dod o fewn un o'r categorïau ym mharagraff (2). Ond nid yw'r Rhan hon yn gymwys os yw'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i bedwar neu lai o unigolion.

(2) Y categorïau yw—

Categori A: Mae'r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn adeilad newydd neu adeilad presennol sydd wedi cael ei addasu at ddiben darparu'r gwasanaeth, ac, yn y naill achos neu'r llall, nad yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth llety.

Categori B: Mae'r fangre yn estyniad i adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben darparu'r gwasanaeth mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth.

Categori C: Mae'r fangre yn adeilad a oedd heb ei feddiannu yn union cyn cofrestriad y darparwr gwasanaeth ond a oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad darparwr gwasanaeth arall.

(3) Os yw'r Rhan hon yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadau 50 i 54.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gwasanaeth llety" yw gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd.

Gwybodaeth Cychwyn
I1 Rhl. 49 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Gofynion ychwanegol – ystafelloedd ymolchi en-suite

50. Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth gael ystafell ymolchi en-suite sy'n cynnwys basn golchi dwylo, toiled a chawod hygyrch.

Gwybodaeth Cychwyn
I2 Rhl. 50 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Gofynion ychwanegol – maint ystafelloedd

51.—(1) Rhaid i bob ystafell a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth gael o leiaf 12 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio oni bai bod paragraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo rhaid i'r person sy'n byw yn yr ystafell ddefnyddio cadair olwyn yn barhaol ac yn gyson oherwydd natur ei anabledd.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ystafell wely yn cael ei rhannu.

(4) Os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r ystafell wely gael o leiaf 13.5 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio.

(5) Os yw paragraff (3) yn gymwys, rhaid i'r ystafell wely gael o leiaf 16 o fetrau sgwâr o le llawr y gellir ei ddefnyddio.

Gwybodaeth Cychwyn
I3 Rhl. 51 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Gofynion ychwanegol – lle cymunedol

52. Rhaid i'r lle eistedd, hamdden a bwyta a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â rheoliad 44(6) fod o leiaf—

(a) 4.1 metr sgwâr ar gyfer pob unigolyn;

(b) 5.1 metr sgwâr ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Gwybodaeth Cychwyn
I4 Rhl. 52 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Gofynion ychwanegol – lle yn yr awyr agored

53. Rhaid i'r tiroedd allanol a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â rheoliad 44(10)—

(a) bod yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd â phroblemau symudedd eraill,

(b) bod â digon o seddi addas, ac

(c) wedi eu dylunio i ddiwallu anghenion pob unigolyn gan gynnwys y rhai sydd â namau corfforol, synhwyraidd a gwybyddol.

Gwybodaeth Cychwyn
I5 Rhl. 53 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Gofynion ychwanegol – lifft i deithwyr

54. Pan fo'r llety a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar fwy nag un llawr a bod hyn yn gyson â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth, rhaid i lifft i deithwyr fod ar gael.

Gwybodaeth Cychwyn

I6 Rhl. 54 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)